Archwilio Cymru
Audit Wales

# Adolygiad o'r Gwasanaeth Cynllunio – Cyngor Sir Powys

Blwyddyn archwilio: 2021-22

Dyddiad cyhoeddi: Ebrill 2023

Cyfeirnod y ddogfen: 3519A2023

Paratowyd y ddogfen hon fel rhan o waith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Os ceir cais am wybodaeth y gall y ddogfen hon fod yn berthnasol iddo, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae cod adran 45 yn nodi'r arfer o ran trin ceisiadau a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn cysylltiad â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru ac Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Archwilio Cymru: swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.
We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

Mae’r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. This document is also available in English.

# Cynnwys

Mae gennym bryderon am wendidau strategol, gweithredol a diwylliannol sylfaenol Gwasanaeth Cynllunio'r Cyngor. Mae'r gwendidau hyn yn llesteirio ei allu i gefnogi staff ac Aelodau yn gyson a chynaliadwy i gyflawni gwasanaeth effeithiol sy'n helpu'r Cyngor i gyflawni ei amcanion corfforaethol


Adroddiad cryno

Crynodeb 4

Adroddiad manwl

Mae'r data perfformiad y mae'r Cyngor yn ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru yn dangos bod yr amser a gymerir i benderfynu ar geisiadau cynllunio mawr a gorfodaeth yn parhau i fod yn wael, ond yn ddiweddar mae wedi gwella'r llinellau amser wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio. Ond mae gennym bryderon am gywirdeb data'r Gwasanaeth Cynllunio, uniondeb ei ddata a'i drefniadau sicrhau ansawdd, a pha un a yw'n adrodd gwybodaeth gywir i Lywodraeth Cymru, Aelodau a'r cyhoedd 7

Mae'r rolau, y cyfrifoldebau a'r trefniadau llywodraethu yn y gwasanaeth cynllunio yn aneglur. Mae hyn yn tanseilio proffesiynoldeb swyddogion, gan arwain at wasanaeth toredig ac arferion gweithio anghyson 12

Mae gweithlu'r gwasanaeth cynllunio yn ansefydlog. Mae ganddo drosiant staff uchel, cyfarfodydd tîm digyswllt, llif cyfathrebu gwael a diffyg cyfleoedd dysgu a datblygu ffurfiol sy'n effeithio'n negyddol ar y gwasanaeth 13

Nid yw'r gwasanaeth cynllunio yn darparu eglurder, gwaith monitro nac atebolrwydd effeithiol ynghylch sut y mae'n cefnogi'r Cyngor i gyflawni ei amcanion a'i uchelgeisiau corfforaethol 15

# Adroddiad cryno

## Crynodeb

### Yr hyn a adolygwyd gennym a pham

1 Cynhaliwyd yr adolygiad hwn yn rhan o'n Cynllun Archwilio Cyngor Sir Powys 2021-22. Ceisiodd yr adolygiad roi sicrwydd a mewnwelediad ynghylch a yw gwasanaeth cynllunio y Cyngor yn cyflawni ei amcanion yn effeithiol ac yn gynaliadwy ac yn cyfrannu tuag at gyflawni blaenoriaethau corfforaethol y Cyngor. Yn ein gwaith roeddem hefyd yn ystyried darbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y gwasanaeth cynllunio ac i ba raddau y mae'r Cyngor yn gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth gyflawni'r gwasanaeth. Mae'r gwaith hwn yn cynnwys adolygiad o berfformiad y gwasanaeth cynllunio.

2 Mae gwasanaethau cynllunio'r cyngor yn alluogwyr strategol pwysig sy'n sail i lawer o ddatblygiadau mawr a phwysig, gan gynnwys adeiladu ysgolion newydd, datblygu cartrefi gofal, adeiladu canolfannau siopa a llety ym maes twristiaeth. Gall y datblygiadau hyn helpu cynghorau i gyflawni eu hamcanion a'u huchelgeisiau corfforaethol.

3 Mae gan Gyngor Sir Powys, fel Awdurdod Cynllunio Lleol (ACLl) ran hanfodol i'w chwarae wrth nodi anghenion datblygu, penderfynu pa feysydd sydd angen eu hamddiffyn neu eu gwella, ac asesu pa un a yw datblygiad arfaethedig yn cyd-fynd â pholisïau lleol a chenedlaethol.

4 Fel yn achos awdurdodau lleol eraill Cymru, mae'r Cyngor yn wynebu cyfyngiadau ariannol ar hyn o bryd ac mae'n gorfod gwneud penderfyniadau anodd ynglŷn â sut mae'n ariannu gwasanaethau cyhoeddus. Nid yw gwasanaeth cynllunio'r Cyngor wedi ei warchod rhag y pwysau ariannol hyn ac mae'n gorfod cyflawni mwy am lai.

5 Gan ystyried y pwysau ar adnoddau, mae'n hanfodol bod pob gwasanaeth y Cyngor yn sicrhau'r cyfraniad mwyaf i helpu i gyflawni Amcanion Corfforaethol y Cyngor a gweithio'n ddarbodus, yn effeithlon, yn effeithiol ac yn gynaliadwy.

6 Fel rhan o'n hadolygiad, cynhaliwyd cyfweliadau gyda staff y gwasanaeth cynllunio a siarad â nifer o ymgyngoreion statudol cynllunio a rhai aelodau o'r Cyngor.

7 Er mwyn deall perfformiad y gwasanaeth, gwnaethom ddadansoddi data perfformiad ac adolygu nifer o ddogfennau perthnasol i'r gwasanaeth.

8 I fod yn eglur, nid oedd yr adolygiad hwn yn edrych ar gywirdeb ac ansawdd penderfyniadau cynllunio a gorfodi'r Cyngor. Wrth symud ymlaen, gallai'r Cyngor droi at PCAC (Penderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru) i gael cyngor ar benderfyniadau.

9 Fe wnaethom gyflawni'r adolygiad hwn mewn dau gam mis Mai 2022 a rhwng mis Hydref a mis Rhagfyr 2022.

## Yr hyn a ganfuwyd gennym

10 Ar y cyfan, canfuom y canlynol: Mae gennym bryderon am wendidau strategol, gweithredol a diwylliannol sylfaenol Gwasanaeth Cynllunio'r Cyngor. Mae'r gwendidau hyn yn llesteirio ei allu i gefnogi staff ac Aelodau yn gyson a chynaliadwy i gyflawni gwasanaeth effeithiol sy'n helpu'r Cyngor i gyflawni ei amcanion corfforaethol.

11 Daethom i'r casgliad hwn oherwydd:

- mae'r data perfformiad y mae'r Cyngor yn ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru yn dangos bod yr amser a gymerir i benderfynu ar geisiadau cynllunio mawr a gorfodaeth yn parhau i fod yn wael, ond yn ddiweddar mae wedi gwella'r llinellau amser wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio. Ond mae gennym bryderon am gywirdeb data'r Gwasanaeth Cynllunio, uniondeb ei ddata a'i drefniadau sicrhau ansawdd, a pha un a yw'n adrodd gwybodaeth gywir i Lywodraeth Cymru, i Aelodau a'r cyhoedd
- mae'r rolau, y cyfrifoldebau a'r trefniadau llywodraethu yn y gwasanaeth cynllunio yn aneglur. Mae hyn yn tanseilio proffesiynoldeb swyddogion, gan arwain at wasanaeth toredig ac arferion gweithio anghyson
- mae gweithlu'r gwasanaeth cynllunio yn ansefydlog. Mae ganddo drosiant staff uchel, cyfarfodydd tîm digyswllt, llif cyfathrebu gwael a diffyg cyfleoedd dysgu a datblygu ffurfiol sy'n effeithio'n negyddol ar y gwasanaeth
- Nid yw'r gwasanaeth cynllunio yn darparu eglurder, gwaith monitro nac atebolrwydd effeithiol ynghylch sut y mae'n cefnogi'r Cyngor i gyflawni ei amcanion a'i uchelgeisiau corfforaethol.

12 Mae'n amlwg bod heriau diwylliannol, strategol a gweithredol sylweddol yn y gwasanaeth cynllunio. Mae'r rhain yn cynnwys ei berfformiad, trefniadau llywodraethu, datblygu'r gweithlu, ac aliniad strategol a chorfforaethol. Mae'n syndod ac yn bryderus felly nad oedd y Cyngor yn ymwybodol o raddfa a manylion yr heriau hyn yn gorfforaethol, o sut maen nhw'n effeithio ar effeithiolrwydd, effeithlonrwydd, perfformiad, a staff, ac na thynnwyd ei sylw at yr heriau er mwyn mynd i'r afael â nhw mewn modd cynaliadwy.

13 Mae hyn yn codi pryderon am reolaeth a goruchwyliaeth y Cyngor o ran effeithiolrwydd ei wasanaeth cynllunio.

## Argymhellion

14 Wrth fynd i'r afael â gwendidau sylfaenol **gwasanaeth cynllunio'r Cyngor, rydym yn cynghori'r Cyngor yn gryf i flaenoriaethu'r argymhelliad hwn. Byddwn yn gwirio cynnydd y Cyngor o ran gwella ei wasanaeth cynllunio o fewn y 12 mis nesaf.**

**Arddangosyn 1: argymhelliad**

1. Mae angen i'r Cyngor sicrhau ei hun bod sylfeini sylfaenol yn eu lle i'w alluogi i gyflawni gwasanaeth effeithiol mewn ffordd gynaliadwy. Mae hyn yn cynnwys ond nid yn gyfyngedig i'r canlynol:

a) adolygu'r bwriad gwleidyddol a strategol ar gyfer ei gyfrifoldebau gorfodi cynllunio, cyfleu hyn yn glir, ac alinio adnoddau i gyflawni bwriad dewisedig y Cyngor;

b) datblygu Cynllun Busnes y Gwasanaethau Cynllunio i ategu'r Cynllun Busnes Integredig Eiddo, Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd. Dylai egluro cysylltiadau'r gwasanaeth cynllunio rhwng y gwasanaeth cynllunio ag amcanion Corfforaethol y Cyngor, i ganolbwyntio camau gweithredu'r gwasanaeth ar wella, a nodi trefniadau monitro gwasanaethau effeithiol , targedau perfformiad, trefniadau datblygu'r gweithlu a rheoli risg;

c) diogelu swyddogion y gwasanaeth cynllunio, uwch reolwyr ac aelodau etholedig drwy ddatblygu trefniadau a phrotocolau clir sy'n nodi sut maen nhw'n ymgysylltu'n uniongyrchol ag asiantau cynllunio ac ymgeiswyr i sicrhau uniondeb, ymddiriedaeth a ffydd yn y gwasanaeth;

d) sefydlu trefniadau cyfarfodydd tîm rheolaidd ac effeithiol i wella cyfathrebu o fewn y gwasanaeth cynllunio a rhoi cyfle strwythuredig a chyson i swyddogion drafod achosion cynllunio a gorfodi;

e) rhoi trefniadau tryloyw a chyson ar waith er mwyn i'r gwasanaeth weithredu'n gydlynus fel tîm i drafod gwahaniaeth barn swyddogion ar geisiadau cynllunio, er mwyn sicrhau bod pob swyddog yn fodlon yn broffesiynol ar y penderfyniadau cynllunio terfynol;

f) sefydlu safonau gwasanaeth a phrotocolau a chyfleu'r rhain yn effeithiol i bob swyddog er mwyn sicrhau dulliau cyson e.e. sut i ymdrin â cheisiadau sydd â gwybodaeth ar goll;

g) trefnu cyfleoedd dysgu ffurfiol ar gyfer staff i sicrhau dull cyson, strwythuredig a rhagweithiol i gefnogi swyddogion newydd yn y rôl, a darparu cyfleoedd datblygu parhaus i staff presennol;

h) sicrhau bod gan y Gwasanaeth Cynllunio drefniadau ansawdd data cadarn i sicrhau ei fod yn adrodd data perfformiad cywir fel bod gan staff, Aelodau, Llywodraeth Cymru a'r cyhoedd ffydd yn ei onestrwydd i wneud penderfyniadau cywir a gwybodus;

i) nodi a dysgu oddi wrth arfer da Awdurdodau Cynllunio Lleol eraill wrth weithredu gwelliannau i'r gwasanaeth.

# Adroddiad manwl

## Mae gennym bryderon am wendidau strategol, gweithredol a diwylliannol sylfaenol Gwasanaeth Cynllunio’r Cyngor. Mae'r gwendidau hyn yn llesteirio ei allu i gefnogi staff ac Aelodau yn gyson a chynaliadwy i gyflawni gwasanaeth effeithiol sy'n helpu'r Cyngor i gyflawni ei amcanion corfforaethol

### Mae'r data perfformiad y mae'r Cyngor yn ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru yn dangos bod yr amser a gymerir i benderfynu ar geisiadau cynllunio mawr a gorfodaeth yn parhau i fod yn wael, ond yn ddiweddar mae wedi gwella'r llinellau amser wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio. Ond mae gennym bryderon am gywirdeb data'r Gwasanaeth Cynllunio, uniondeb ei ddata a'i drefniadau sicrhau ansawdd, a pha un a yw'n adrodd gwybodaeth gywir i Lywodraeth Cymru, i Aelodau a'r cyhoedd

15 Mae perfformiad gwasanaeth cynllunio yn bwysig i'r Cyngor a'r cyhoedd yn ehangach. Mae data perfformiad yn ddefnyddiol er mwyn deall perfformiad y gwasanaeth cynllunio. Gall data o'r fath roi cipolwg ar heriau sy'n ymwneud â mathau penodol o geisiadau cynllunio a gorfodi cynllunio. Er enghraifft, gall oedi mewn ceisiadau mawr effeithio ar uchelgeisiau adfywio economaidd ehangach y Cyngor. Gall oedi mewn mân geisiadau olygu y gallai'r cyhoedd brofi anawsterau wrth wneud newidiadau i'w heiddo a'u busnesau. Gallai problemau gyda pherfformiad gorfodi cynllunio ddangos bod datblygiad anghyfreithlon yn digwydd. Nid yw data perfformiad ar ei ben ei hun yn rhoi golwg gynhwysfawr ar berfformiad gwasanaeth. Trwy ddadansoddi data perfformiad cynllunio, gall cynghorau ragweld heriau ac ôl-groniadau yn y dyfodol a cheisio mynd i'r afael ag achosion sylfaenol a thargedu adnoddau sydd ar gael.


16 Adroddiad Perfformiad Blynyddol Cynllunio Cymru Gyfan 2018-19 Llywodraeth Cymru[1] yw’r data perfformiad blynyddol diweddaraf i’w gyhoeddi sydd ar gael i gymharu perfformiad y 25 ACLl yng Nghymru. Serch hynny, mae'r ACLlau yn cyflwyno ffurflenni perfformiad chwarterol i Lywodraeth Cymru.

17 Anfonodd gwasanaeth cynllunio’r Cyngor eu ffurflenni chwarterol am y cyfnod mis Hydref 2021 i fis Fedi 2022 (Ch2 2021-22 i Ch2 2022-23) atom. Wedi'i nodi isod mae data perfformiad cynllunio'r Cyngor a lywiodd ein hadolygiad, ar gyfer gwneud penderfyniadau a gorfodi.

[1] Adroddiad-perfformiad-blynyddol-gwasanaethau-cynllunio-2018-2019 0.pdf (llyw.cymru)

## Gwneud Penderfyniadau

**Arddangosyn 2: Amser cyfartalog i benderfynu ar yr holl geisiadau cynllunio mewn diwrnodau**





Ffynhonnell: Adroddiad blynyddol Gwasanaethau Cynllunio Llywodraeth Cymru 2018-19 a ffurflenni Chwarterol Rheoli Datblygu Cyngor Sir Powys i Lywodraeth Cymru.

18 Fel y dangosir yn **Arddangosyn 2**, mae perfformiad y Cyngor o ran y nifer cyfartalog o ddiwrnodau a gymerir i benderfynu ar yr holl geisiadau cynllunio yn ddarlun sy’n gwella.

19 Yn 2018-2019, perfformiad y Cyngor oedd 161.5 diwrnod, sy'n sylweddol waeth na chyfartaledd Cymru o 80.7 diwrnod ac yn allanolyn sylweddol yn safle 25 allan o 25 ACLl. O Ch3 2021-22 i Ch2 2022-23 gostyngodd y Cyngor yr amser cyfartalog y mae'n ei gymryd i benderfynu ar bob cais i 128 diwrnod yn Chwarter 2 2022-23.

20 Does dim data cyffelyb ar gael gan Lywodraeth Cymru, felly ni allwn benderfynu sut mae'r Cyngor wedi gwella o'i gymharu ag ACLlau eraill.

**Arddangosyn 3: amser cyfartalog i benderfynu ar geisiadau cynllunio mawr mewn diwrnodau**




Ffynhonnell: Adroddiad blynyddol Gwasanaethau Cynllunio Llywodraeth Cymru 2018-19 a ffurflenni Chwarterol Rheoli Datblygu Cyngor Sir Powys i Lywodraeth Cymru.

21 Fel y dangosir yn **Arddangosyn 3**, mae perfformiad y Cyngor o ran y nifer cyfartalog o ddiwrnodau a gymerir i benderfynu ar geisiadau mawr yn parhau'n wael.

22 Dangosodd y flwyddyn lawn ddiwethaf o ddata cyffelyb gan Lywodraeth Cymru o 2018-19 fod y gwasanaeth yn 24ain allan o 25 ACLl. Ar gyfartaledd y nifer cyfartalog o ddiwrnodau a gymerodd y Cyngor i benderfynu ar geisiadau mawr yn 2018-19 oedd 528.3 o ddiwrnodau a oedd eisoes llawer mwy na chyfartaledd Cymru, sef 231.8 diwrnod. Yn Ch4 2021-22, llwyddodd y Cyngor i leihau'r amser cyfartalog a gymerwyd i benderfynu ar geisiadau mawr i 282 diwrnod. Mae effaith hyn yn golygu oedi posibl i ddatblygiadau strategol pwysig a allai gyfrannu at uchelgeisiau corfforaethol.

23 Rydym yn cydnabod yr heriau a'r cymhlethdodau sy'n gysylltiedig â phenderfynu ar geisiadau mawr, fel materion ecolegol a ffosffadau. Bydd y rhain heb os yn achosi oedi yn y broses benderfynu. Er hynny, mae oedi'r Cyngor wrth benderfynu ar geisiadau mawr yn hirsefydlog.


**Gwneud Penderfyniadau - penderfyniadau aelodau o'u cymharu â chyngor swyddogion**

24 Yn 2018-19, roedd canran penderfyniadau aelodau (pwyllgor cynllunio) y Cyngor a oedd yn groes i gyngor proffesiynol swyddogion 2.7%, yn well na chyfartaledd Cymru, sef 9.2%.

25 Rhwng Ch3 2021-22 a Ch2 2022-23, ni wnaeth aelodau unrhyw benderfyniadau yn groes i gyngor swyddogion.

## Gorfodi

**Arddangosyn 4: amser cyfartalog a gymerwyd i ymchwilio i achosion gorfodi, mewn diwrnodau**





Ffynhonnell: Ffurflenni Chwarterol Rheoli Datblygu Cyngor Sir Powys i Lywodraeth Cymru.

26 Fel y dangosir yn **Arddangosyn 4**, roedd gwelliant yn yr amser cyfartalog a gymerodd y Cyngor i ymchwilio i achosion gorfodi yn Ch2 2022-23. Serch hynny, dros y cyfnod o 12 mis, mae perfformiad y Cyngor wedi bod yn eratig. Mae'r amseroedd cyfartalog uchel yn Ch3 2021-22 a Ch1 2022-23 yn cael eu dilyn gan berfformiad gwell yn y chwarteri dilynol. Mae hyn yn awgrymu bod y Cyngor yn ymateb i berfformiad gwael yn hytrach na chyflwyno cynllun gweithredu cynaliadwy i atal perfformiad gwael a sicrhau gwelliant parhaus. Mae'n ymddangos bod y data'n ysgogi adweithiau'r Cyngor, ac nad yw'r Cyngor yn rheoli'r llwyth gwaith gorfodi yn effeithiol. Mae effaith diffyg gorfodaeth gynllunio yn golygu y gall datblygiadau anghyfreithlon ac weithiau peryglus ddigwydd yn y Sir.

27 Fodd bynnag, wrth ymateb i'n hadroddiad drafft, anfonodd y Cyngor ddata gwahanol atom am yr amser cyfartalog y mae'n ei gymryd i ymchwilio i achosion gorfodi, mewn diwrnodau. Fe wnaeth y Cyngor sylweddoli fod y data gwreiddiol a gyflwynwyd ganddo i Lywodraeth Cymru yn anghywir. O ganlyniad, mae gennym bryderon nawr ynghylch cywirdeb data perfformiad y gwasanaeth cynllunio,

uniondeb data a'i drefniadau sicrhau ansawdd, a pha un a yw'n adrodd gwybodaeth gywir i Lywodraeth Cymru, i Aelodau a'r cyhoedd.

**Arddangosyn 5: amser cyfartalog a gymerwyd i gymryd camau gorfodi Cadarnhaol, mewn diwrnodau**




Ffynhonnell: Adroddiad blynyddol Gwasanaethau Cynllunio Llywodraeth Cymru 2018-19 a ffurflenni Chwarterol Rheoli Datblygu Cyngor Sir Powys i Lywodraeth Cymru.

28 Fel y dangosir yn **Arddangosyn 5**, yn 2018-2019 roedd perfformiad y Cyngor wrth gymryd camau gorfodi cadarnhaol (122 o ddiwrnodau) yn well na chyfartaledd Cymru sef 184.6 diwrnod, ac roedd y Cyngor yn y ddegfed safle allan o 25 ACLl. Fodd bynnag, rhwng Ch3 2021-22 a Ch2 2022-23, cymerodd y Cyngor fwy o amser i gymryd camau gorfodi cadarnhaol fel y dangosir gan ei berfformiad gwaeth ym mhob chwarter na'i lefel yn 2018-2019. Fel y nodwyd eisoes, nid oes data cyffelyb ar gael, felly nid ydym yn gallu penderfynu sut mae'r Cyngor wedi perfformio o'i gymharu ag ACLlau eraill.

29 Mae'r Cyngor wedi cyfuno'r rolau Rheoli Datblygu (Cynllunio) a Gorfodaeth. Mae hyn yn golygu, yn ymarferol, fod yn rhaid i swyddogion ddewis rhwng blaenoriaethu achosion rheoli datblygu ac achosion gorfodaeth. Mae'r gwasanaeth yn cydnabod bod achosion rheoli datblygu yn cael blaenoriaeth, sydd felly'n effeithio'n negyddol ar ei berfformiad gorfodi.

Mae'r adrannau canlynol o'r adroddiad hwn yn amlygu rhai o'r heriau allweddol sy'n wynebu Gwasanaeth Cynllunio'r Cyngor. Mae'n rhoi mewnwelediad a dadansoddiad ehangach i ffactorau sy'n llesteirio effeithiolrwydd y gwasanaeth.

## Mae’r rolau, y cyfrifoldebau a'r trefniadau llywodraethu yn y gwasanaeth cynllunio yn aneglur. Mae hyn yn tanseilio proffesiynoldeb swyddogion, gan arwain at wasanaeth toredig ac arferion gweithio anghyson

30 Ar adeg ein gwaith maes, roedd gan swyddogion cynllunio'r Cyngor lwyth gwaith mawr o achosion rheoli datblygu (cynllunio) ac achosion gorfodi.

31 Un o rwystredigaethau parhaus y gwasanaeth, a chyfrannwr at lwyth gwaith mawr, yw'r mater o golli gwybodaeth hanfodol mewn ceisiadau cynllunio. Mae ceisiadau gyda gwybodaeth ar goll yn broblem hirsefydlog i'r Cyngor nad yw uwch reolwyr wedi llwyddo i fynd i'r afael â hi. Er nad yw cynnwys ac ansawdd y ceisiadau cynllunio a gyflwynwyd o dan reolaeth y gwasanaeth cynllunio, gall y gwasanaeth reoli sut y dylai swyddogion ymateb i'r ceisiadau hyn.

32 Doedd gan y Cyngor ddim canllawiau ar lefel gwasanaeth ar waith i gyfarwyddo a chefnogi swyddogion cynllunio ynghylch sut i ymateb dan yr amgylchiadau hyn. Mae rhai swyddogion yn cymryd rhan mewn sgyrsiau hir i gaffael gwybodaeth goll, sy'n cynyddu’r amser a gymerir i wneud penderfyniadau ar geisiadau cynllunio. Mae hyn hefyd yn cynyddu'r amser y mae ymgeisydd yn aros i gael penderfyniad ar y cais, yn  effeithio ar ffigurau perfformiad, yn cynyddu llwythi gwaith, ac yn rhoi pwysau ar swyddogion.

33 Roedd swyddogion cynllunio eraill yn ceisio cyflwyno ymateb wedi’i ffurfioli i wybodaeth goll drwy roi un cyfle i asiantau cynllunio ac ymgeiswyr ddarparu gwybodaeth goll cyn y gofynnir i’r cais gael ei dynnu’n ôl neu ei wrthod. Dywedodd sawl swyddog wrthym eu bod wedi drysu ac yn rhwystredig gydag anghysondeb yr arfer hwn. Mae peidio â chael cyfarwyddeb glir hefyd yn wrthgynhyrchiol o ran darparu gwasanaeth effeithlon ac effeithiol. Mae hyn yn amlygu gwasanaeth cynllunio toredig heb unrhyw ddull gweithredu 'un tîm' cyson o ymdrin â materion.

34 Yn ystod ein hadolygiad, cawsom wybod bod y ffordd yr ymatebai’r gwasanaeth cynllunio pan fyddai ymgeiswyr ac asiantau yn dod i gysylltiad yn anghyson. Rhaid i wasanaethau cynllunio'r Cyngor ystyried ymgeiswyr cynllunio yn gyson, yn unol â pholisi cynllunio. Ni ddylid ffafrio unrhyw ymgeisydd dros eraill. Felly, mae'n hanfodol er mwyn uniondeb y gwasanaeth cynllunio ac er mwyn ymddiriedaeth y cyhoedd yn y Cyngor, fod y gwasanaeth nid yn unig yn gweithredu yn y ffordd ddiduedd hon, ond hefyd ei fod yn cael ei weld yn gwneud hyn.

35 Fe wnaeth rhai ymgeiswyr ac asiantau gysylltu â'r swyddogion cynllunio perthnasol, ac fe gysylltodd rhai ag uwch-reolwyr yn uniongyrchol. O ganlyniad, roedd uwch-reolwyr yn ymwneud â nifer fach o geisiadau a phenderfyniadau a oedd yn fân eu natur, y byddai swyddogion cynllunio fel arfer yn ymdrin â nhw. Mae hyn wedi arwain at rywfaint o wahaniaeth barn ymhlith swyddogion cynllunio mewn cysylltiad â rhai penderfyniadau ar geisiadau cynllunio.

36 Mae dehongli polisi cynllunio i raddau'n oddrychol. Felly nid yw'n anarferol i swyddogion gael barn wahanol ar benderfyniad. Pan fydd hyn yn digwydd, dylai fod tystiolaeth gynllunio gadarn a llwybr i gefnogi unrhyw newid, a chefnogaeth yn

cael ei rhoi i swyddogion cynllunio er mwyn iddynt ddeall y rhesymau dros unrhyw amrywiad. Fel rhan o'n hadolygiad, dywedwyd wrthym nad yw'r sgwrs hon yn digwydd fel mater o drefn yng ngwasanaeth cynllunio'r Cyngor. Dywedwyd wrthym fod hyn wedi gadael y swyddogion hynny'n teimlo eu bod yn cael eu tanseilio a'u peryglu'n broffesiynol.

37 Er mwyn diogelu'r holl staff yn y gwasanaeth cynllunio, mae angen i'r gwasanaeth sicrhau ei hun fod ganddo brotocolau cadarn sy'n nodi'n glir yr amgylchiadau pryd y mae'n briodol i uwch reolwyr ymgysylltu'n uniongyrchol ag asiantau cynllunio ac ymgeiswyr. Mae angen iddo hefyd weithredu'n gydlynus fel tîm pan fo gwahaniaeth barn ar benderfyniadau cynllunio, er mwyn sicrhau bod pawb yn fodlon yn broffesiynol gyda'r penderfyniad cynllunio terfynol.

## Mae gweithlu'r gwasanaeth cynllunio yn ansefydlog. Mae ganddo drosiant staff uchel, cyfarfodydd tîm digyswllt, llif cyfathrebu gwael a diffyg cyfleoedd dysgu a datblygu ffurfiol sy'n effeithio'n negyddol ar y gwasanaeth

38 Cwblhaodd gwasanaeth cynllunio y Cyngor adolygiad ohono'i hun yn 2021, ar ôl cynnal ymarfer ailstrwythuro staff rhwng 2019 a 2020. Fodd bynnag, methodd yr ailstrwythuro a'r adolygiad â mynd i'r afael â'r materion sylfaenol ym maes llywodraethu a'r gweithlu i wella ei berfformiad mewn ffordd gynaliadwy.

39 I wneud arbedion ariannol fe wnaeth y gwasanaeth cynllunio gyfuno'r ddau Weithiwr Proffesiynol Arweiniol ar gyfer Polisi Cynllunio a Rheoli Datblygu yn un rôl; 'Gweithiwr Proffesiynol Arweiniol ar gyfer Cynllunio'. O ganlyniad, mae'r rôl Arweinydd Proffesiynol bellach yn cwmpasu llu o gyfrifoldebau gan gynnwys y swyddogaeth rheoli datblygu (cynllunio a gorfodi), Polisi Cynllunio gan gynnwys y Cynllun Datblygu Lleol newydd, a gweithredu fel y ddolen allanol ar faterion cynllunio fel ffosffadau a Bargen Twf Canolbarth Cymru. Y rôl hon hefyd yw'r cyswllt mewnol ar gyfer ymgysylltu cynnar a thrafodaethau ar gyfer unrhyw ddatblygiad asedau a ysgogir gan y Cyngor. Dylai'r Cyngor sicrhau ei hun fod ehangder y cyfrifoldebau o fewn y rôl hon yn ymarferol ac yn gynaliadwy, yn enwedig o ystyried llwyth gwaith y Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) newydd sydd ar y gorwel. Mae'r penderfyniad i gyfuno'r rolau Arweinydd Proffesiynol wedi creu un pwynt o ddibyniaeth o fewn y gwasanaeth.

40 Mae ailstrwythuro'r gwasanaeth cynllunio wedi cadw rôl Prif Swyddogion Cynllunio gan greu swyddi newydd, sef Uwch Swyddog Cynllunio a Chynllunydd.

41 Fe gawson ni wybod bod nifer o swyddogion cynllunio profiadol wedi gadael y gwasanaeth yn sgil effaith yr ailstrwythuro. Mae nifer o'r Cynllunwyr newydd a ymunodd â'r gwasanaeth bryd hynny hefyd wedi gadael erbyn hyn. Mae'r Cyngor yn colli mewnwelediadau hanfodol gan nad oes ganddo ddull o weithredu cyson na chadarn o ran cyfweliadau gadael er mwyn deall yn llawn y rhesymau pam mae

swyddogion yn gadael. Mae'r gwasanaeth cynllunio yn profi trosiant uchel o staff sy'n creu ansefydlogrwydd a chynnydd yn y llwyth gwaith i’r swyddogion sydd ar ôl.

42 Y prif resymau dros yr ailstrwythuro, fel y nodir yn adolygiad y Cyngor o wasanaethau cynllunio, oedd mynd i'r afael â thargedau arbedion a helpu i gynorthwyo datblygiad swyddogion cynllunio. Un agwedd ar gyrraedd targedau arbedion sydd angen ei hystyried adeg unrhyw ailstrwythuro yw'r gost o recriwtio i rolau ar ôl i bobl adael.

43 Mae cyfarfodydd tîm y gwasanaeth cynllunio a chyfathrebu mewnol yn danddatblygedig. Ar adeg ein gwaith maes cychwynnol ym mis Mai 2022, roedd y gwasanaeth wedi cynnal un cyfarfod tîm llawn yn unig gyda'r holl swyddogion cynllunio a swyddogion polisi cynllunio. Fel rhan o'n gwaith maes cychwynnol ym mis Mai 2022, buom yn archwilio'r sianeli cyfathrebu gwael o fewn y gwasanaeth cynllunio. O ganlyniad, datblygodd y gwasanaeth gynllluniau i gyflwyno cyfarfodydd tîm rheolaidd. Fodd bynnag, nodwyd cynnydd cyfyngedig gennym yn ystod ein gwaith maes parhaus yn hydref 2022 i wella gwaith tîm a rhannu gwybodaeth.

44 Mae diffyg cyd-dynnu yn nhrefniadau cyfarfod presennol y gwasanaeth cynllunio. Mae'r Gweithiwr Proffesiynol Arweiniol ar gyfer Cynllunio yn cwrdd â'r Prif swyddogion Cynllunio. Mae'r Prif swyddogion Cynllunio yn cwrdd â'r Uwch swyddogion Cynllunio fydd yn cyfarfod â'r Cynllunwyr yn eu tro. Mae swyddogion Polisi Cynllunio yn cwrdd ar wahân. Effaith hyn yw nad yw'r tîm cyfan yn cael eu gweld nac yn trafod heriau sy'n wynebu'r gwasanaeth.

45 Ers 2022, mae unrhyw gais y penderfynir ei fod yn cael ei wrthod gan Gynllunydd neu Uwch Swyddog Cynllunio yn cael ei adolygu gan un o'r ddau Brif Swyddog Cynllunio. Mae barn wahanol yn y gwasanaeth ynghylch yr angen am y trefniant hwn gan na fyddai'n nodweddiadol, mae'n cynyddu llwyth gwaith ar lefel Prif Swyddog Cynllunio, ac mae'n effeithio ar ymddiriedaeth a hyder gwneuthurwyr penderfyniadau eraill o fewn y tîm. Mae hyn hefyd yn llesteirio datblygiad proffesiynol a hyder swyddogion cynllunio newydd o ran gwneud penderfyniadau.

46 Dywedwyd wrthym mai’r rheswm posib dros Uwch Reolwyr yn newid penderfyniadau swyddogion cynllunio o bryd i'w gilydd yw diffyg profiad rhai swyddogion, a'u dehongliad anghywir o bolisïau cynllunio. Pe bai hyn yn wir, mae'n bryderus nad oes gan y gwasanaeth eisoes gyfarfodydd tîm rheolaidd sy'n ymgorffori dysgu a rhannu gwybodaeth gynllunio. Byddai hyn yn lleihau’r angen i newid penderfyniadau cynllunio swyddogion.

47 Cyfrifoldeb y gwasanaeth cynllunio yw trefnu hyfforddiant a chefnogaeth effeithiol a pharhaus i'w swyddogion er mwyn osgoi'r angen i newid penderfyniadau ac er mwyn i swyddogion, yn enwedig swyddogion newydd, deimlo eu bod yn cael eu cefnogi wrth iddynt ymgymryd â'u swyddogaethau.

48 Mae ACLlau eraill yn cynnal cymorthfeydd cynllunio ffurfiol i drafod ceisiadau sy'n cael eu hystyried yn oddrychol. Pwrpas y rhain yw casglu barn swyddogion cynllunio proffesiynol, trafod polisïau perthnasol a dod i benderfyniad cynllunio y cytunir arno. Gallai'r Cyngor elwa ar gysylltu ag ACLlau eraill yng Nghymru i ddysgu oddi wrth arfer mewn mannau eraill.

49 Dechreuodd nifer o swyddogion eu gwaith yn y gwasanaeth ar ddechrau pandemig Covid-19. Er bod cynefino a hyfforddi o bell yn ystod y cyfnod o gyfyngiadau symud yn heriol, nid yw'n amhosib. Bryd hynny, nid oedd gan y gwasanaeth becyn strwythuredig a threfnus ar gyfer dysgu, datblygu a hyfforddi ar gyfer cychwynwyr newydd. Roedd hyn o bwysigrwydd arbennig i'r Cynllunwyr newydd gan nad oes angen cymhwyster cynllunio proffesiynol ar gyfer y rôl newydd hon.

50 Neilltuwyd Uwch Swyddog Cynllunio ar gyfer Cynllunwyr newydd i roi cefnogaeth ac arweiniad. Mae Uwch Swyddogion Cynllunio wedi ymrwymo i ddarparu cefnogaeth, ond mae hwn yn faes cyfrifoldeb newydd sy'n gofyn am amser penodol yn erbyn cefndir o geisio lleihau eu llwythi gwaith. Roedd y perthnasoedd a'r gefnogaeth anffurfiol hyn yn cymryd lle strwythur ffurfiol a allai hefyd arwain yn anfwriadol at anghysondebau o ran cefnogaeth. Nid yw'r dull 'cyfeillio' hwn o ddysgu ffurfiol ychwaith cystal â hyfforddiant gwasanaeth cynllunio sydd wedi'i ddatblygu'n dda.

51 Nid yw Swyddogion Cynllunio'r Cyngor yn cael digon o hyfforddiant mewn gorfodaeth. Hefyd, mae bod â gorfodaeth yn rhan o'u swyddogaeth yn cynyddu llwythi gwaith ac yn creu pwysau ychwanegol. Mae'r dull gweithredu anghyson hwn o ran gorfodaeth yn cael ei adlewyrchu ym mherfformiad gorfodaeth anghyson y gwasanaeth.

52 Nid yw gwasanaeth cynllunio'r Cyngor yn ystyried gorfodaeth fel gwasanaeth â'r un flaenoriaeth â rheoli datblygiad (cynllunio). Mae'n amlwg hefyd nad yw'n cael ei ystyried yn strategol bwysig. Nid yw'r Cyngor wedi ystyried, gyda phenderfyniad, y bwriad gwleidyddol a strategol ar gyfer ei orfodaeth gynllunio.

## Nid yw'r gwasanaeth cynllunio yn darparu eglurder, gwaith monitro nac atebolrwydd effeithiol ynghylch sut y mae'n cefnogi'r Cyngor i gyflawni ei amcanion a'i uchelgeisiau corfforaethol

53 Mae gwasanaeth cynllunio effeithiol yn wasanaeth rhyngweithredol, penderfynu ar geisiadau cynllunio ac ymdrin ag achosion gorfodi, a galluogwr corfforaethol i gyflawni amcanion ac uchelgeisiau strategol y Cyngor. Er mwyn cyflawni hyn, mae angen i wasanaeth cynllunio fod â dealltwriaeth glir ac eglur o'r hyn y mae'r Cyngor ei angen oddi wrtho i helpu i gyflawni'r uchelgeisiau hynny.

54 Mae gan wasanaeth Eiddo, Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd Cyngor Sir Powys Gynllun Busnes Integredig ar gyfer 2022 – 2025 sy'n cynnwys nod i 'gyflawni swyddogaeth gynllunio effeithlon a chost-effeithiol sy'n ymdrechu i sicrhau gwelliant parhaus'. Mae'r Cynllun Busnes hwn yn cyfleu'r rôl sydd gan y Tîm Polisi Cynllunio wrth lywio cyfeiriad strategol y Cyngor o safbwynt rheoli datblygu. Mae'r Tîm Polisi Cynllunio yn gweithio ar Gynllun Datblygu Lleol newydd (CDLl) sy'n cael ei ysgogi gan ddyddiad gorffen agos y CDLl presennol sef Mawrth 2026. Mae hwn yn waith cadarnhaol ac arwyddocaol a fydd yn llunio datblygiad y Sir a'r Cyngor yn y dyfodol .

55 Fodd bynnag, mae rôl cynllunio (rheoli datblygu) wrth gefnogi uchelgeisiau corfforaethol y Cyngor yn llai eglur yn y Cynllun Busnes Integredig Eiddo, Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd 2022-2025. Yr un weithred yn y Cynllun Busnes ar gyfer y gwasanaeth cynllunio yw 'gweithredu Gweithgor Gwasanaethau Cynllunio'. Mae'r grŵp hwn yn gyfrifol am wella agweddau rhyngweithredol y gwasanaeth yn ogystal â chefnogi prosiectau Gweledigaeth 2025 a thrawsnewid y Cyngor. Er ei bod yn ddealladwy nad yw'r Cynllun Busnes yn cynnwys manylion y Gweithgor Gwasanaethau Cynllunio, nid yw'r manylion hyn yn hysbys yn eang ychwaith ar draws y gwasanaeth.

56 Mae'r hunanasesiad diweddaraf o Berfformiad Cynllun Corfforaethol y Cyngor ar gyfer mis Ebrill 2021 - mis Mawrth 2022 yn cynnwys data perfformiad ar gyfer Mesurau Atebolrwydd Cyhoeddus Llywodraeth Cymru sy'n ymwneud â cheisiadau cynllunio ac apeliadau cynllunio. Nodir yr wybodaeth hon ym Mherfformiad Cynllun Corfforaethol y Cyngor fel 'ddim ar gael'. Dim ond mewn cysylltiad â nod i ddarparu ystod uwch o dai fforddiadwy y gwneir cyfeiriad at y gwasanaeth cynllunio. Mae yna gyfeiriadau at drosiant uchel y staff a thîm sydd â phrofiad cyfyngedig sydd wedi'i restru fel 'bygythiad' i'r gwasanaeth.

57 Mae gan y Cyngor gyfleoedd i gyfuno gweithredoedd y Gweithgor Gwasanaethau Cynllunio a'r Cynllun Busnes Integredig i greu cynllun gweithredu manwl sy'n dangos sut y mae'r gwasanaeth yn cyfrannu at gefnogi’r gwaith o gyflawni amcanion ac uchelgeisiau corfforaethol y Cyngor.

58 Byddai datblygu cynllun gweithredu manwl hefyd yn caniatáu gwell cyfathrebu o fewn y gwasanaeth a chydnabod sut mae swyddogion unigol yn cefnogi'r tîm ehangach, ac amcanion corfforaethol y Cyngor. Byddai'n canolbwyntio camau gweithredu’r gwasanaeth ar gyflawni gwelliant a chanlyniadau cynaliadwy.

Archwilio Cymru
1 Cwr y Ddinas
Caerdydd CF10 4BZ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.